***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 699

## Rheoliadau Ymweliadau â Phlant dan Gadwad a fu'n Derbyn Gofal (Cymru) 2011

**Adroddiadau ar ymweliadau**

**6.**—(1) Rhaid i R ddarparu adroddiad ysgrifenedig ar bob ymweliad. Rhaid iddo gynnwys—

(a) asesiad R, gan roi sylw i ddymuniadau a theimladau A, o ran bod lles A yn cael ei ddiogelu a'i hybu'n ddigonol tra bo wedi ei gadw'n gaeth,

(b) argymhellion R ynglŷn ag amseriad ac amlder unrhyw ymweliadau pellach gan R,

(c) unrhyw drefniadau eraill y mae R yn ystyried y dylid eu rhoi ar waith er mwyn hybu cyswllt rhwng A a theulu A neu er mwyn diogelu a hybu lles A,

(ch) asesiad R, ynglŷn â sut y dylai lles A gael ei ddiogelu a'i hybu'n ddigonol wedi iddo gael ei ryddhau o gadwad, yn benodol–

(i) os bydd angen i'r awdurdod lleol cyfrifol neu awdurdod lleol arall ddarparu llety ar gyfer A pan ryddheir ef, a

(ii) os dylai'r awdurdod lleol cyfrifol neu awdurdod lleol arall ddarparu unrhyw wasanaeth arall wrth iddynt arfer eu dyletswyddau o dan Ddeddf 1989.

(2) Rhaid i R, wrth wneud unrhyw asesiad o dan baragraff (1), onid yw'n rhesymol ymarferol i wneud hynny neu ei fod yn anghyson â lles A, gan gymryd i ystyriaeth farn—

(a) unrhyw riant i A, neu unrhyw berson arall sydd â chyfrifoldeb rhiant dros A, a

(b) aelodau perthnasol o staff y sefydliad lle y mae A wedi ei gadw'n gaeth.

(3) Rhaid i'r awdurdod lleol perthnasol roi copi o'r adroddiad i'r rhai a ganlyn—

(a) A, oni fyddai'n amhriodol i wneud hynny,

(b) person sy'n dod o fewn paragraff (2)(a), oni fyddai gwneud hynny'n niweidio lles pennaf A,

(c) llywodraethwr, cyfarwyddwr neu reolwr cofrestredig(**1**) y sefydliad lle y mae A yn cael ei gadw'n gaeth,

(ch) y rheolwr achos tîm troseddau ieuenctid perthnasol,

(d) yr awdurdod lleol lle y mae A wedi ei gadw'n gaeth, pan fo hwnnw'n wahanol i'r awdurdod lleol cyfrifol, ac

(dd) unrhyw berson arall a ddylai gael copi o'r adroddiad yn nhyb yr awdurdod lleol cyfrifol, gan roi sylw i asesiad R.

(**1**) Hynny yw, person sydd wedi'i gofrestru o dan Ran II o Ddeddf Safonau Gofal 2000 fel rheolwr cartref diogel i blant.